# Arweiniad atadol

## Cymraeg

Yn berthnasol wrth arolygu lleoliadau, ysgolion nas cynhelir ac UCDau cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg

Medi 2021

# Arweiniad atodol: Cymraeg – Medi 2021

## Arweiniad atodol: Cymraeg – Medi 2021

**Beth yw’r diben?**
Darparu arweiniad i arolygwyr ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd darparwyr wrth gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg.

**Ar gyfer pwy mae’r arweiniad?**
Ar gyfer holl arolygwyr ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed a gynhelir ac nas cynhelir, ac ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

**O ba bryd y dylid defnyddio’r arweiniad?**
Medi 2021

## CYNNWYS


**Am y ddogfen**

Datganiad hawlfraint

Ynglŷn â’r arweiniad hwn

**Arweiniad**

Cyflwyniad

Gwerthuso’r Gymraeg

# Am y ddogfen

**Datganiad hawlfraint**

**Ynglŷn â’r arweiniad hwn**

# Datganiad hawlfraint

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Rydym hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

# Ynglŷn â’r arweiniad hwn

Mae ein harweiniad arolygu yn esbonio **Beth** rydym ni’n ei arolygu a **Sut** rydym ni’n arolygu. Fodd bynnag, rydym yn llunio **arweiniad atodol** hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae’r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau’n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw’n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy’n dod i’r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai’r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran gwerthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi’i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu’n gadarnhaol, i sicrhau mai’r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy’n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio’n gryf ar ansawdd yr addysgu a’r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau’r arolygiad yn unol â’r amgylchiadau ym mhob darparwr, i’r graddau ag y bo hynny’n bosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy’n dod i’r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a’r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

# Arweiniad

**Cyflwyniad**

**Gwerthuso'r Gymraeg**

# Cyflwyniad

## Nodau

Nod yr arweiniad atodol hwn yw cefnogi arolygwyr i:

- werthuso i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol yn strategol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, a rhoi'r cynlluniau hyn ar waith yn effeithiol
- gwerthuso graddau ac ansawdd darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu yn Gymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol
- gwerthuso pa mor dda y mae'r ysgol yn addysgu disgyblion am fanteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog
- lle y bo'n briodol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae cyfran yr addysgu yn Gymraeg yn cyd-fynd â chategori iaith swyddogol yr ysgol
- gwerthuso gallu disgyblion i siarad Cymraeg ac ymateb i Gymraeg llafar o gymharu â disgyblion mewn ysgolion mewn cyd-destunau tebyg a'u mannau cychwyn
- gwerthuso'r cynnydd a wna disgyblion o ran datblygu eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg ar gyfer eu dysgu ar draws y cwricwlwm, ac mewn cyd-destunau mwy anffurfiol.

Wrth arolygu medrau llythrennedd (Cymraeg) mewn ysgolion ac UCDau cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg, dylech chi hefyd gyfeirio at yr arweiniad atodol: Arweiniad atodol ar gyfer arolygu llythrennedd Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion ac UCDau sydd i'w weld ar wefan Estyn hefyd.

Mae'r Fframwaith Arolygu diwygiedig (Medi 2021) yn gosod gofyniad i arolygwyr werthuso a rhoi sylwadau ar y Gymraeg yn y canlynol:

**5.1** (Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, yn cynnwys y corff llywodraethol),

**3.1** (Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm), ac mewn

**1.1** (Safonau a chynnydd mewn dysgu a medrau [gwrando a darllen, siarad ac ysgrifennu]).

Cyflwynwyd yr adroddiad fel hyn am fod 5.1 yn ymgorffori gweledigaeth strategol arweinwyr ar gyfer y Gymraeg yn eu lleoliadau yn ogystal â phrosesau hunanwerthuso,

blaenoriaethau a dysgu proffesiynol er mwyn cefnogi'r addysgu (3.1) a'r dysgu (1.1). Yn ychwanegol, mae arolygwyr yn rhydd i adrodd ar agweddau yn gysylltiedig â'r Gymraeg mewn perthynas â maes arolygu 2 (Lles ac agweddau at ddysgu) a maes arolygu 4 (Gofal, cymorth ac arweiniad).

# Cefndir

Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn weithredol yn eu bywyd bob dydd yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â chyflawni'r nod i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sy'n cyfateb i bron i draean o'r boblogaeth, ei nod yw cynyddu cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd o 10% (yn 2013-2015) i 20% erbyn 2050.

Nod cynllun gweithredu Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yw cynyddu cyfran y disgyblion ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg i 40% erbyn 2050, gyda tharged dros dro o 30% erbyn 2031. Un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw sicrhau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015, tud.4). Yn dilyn egwyddorion Cymwys am Oes (Llywodraeth Cymru, 2015), mae Dyfodol Llwyddiannus yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn natblygiad Cymru 'fel cenedl ddwyieithog sydd â'r cryfder a'r hunanhyder i feithrin y ddwy iaith' (Donaldson, 2015, tud.26). At hynny, mae'n datgan y dylai ysgolion ganolbwyntio o'r newydd 'ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu a deall yr iaith lafar' (Donaldson, 2015, tud.115).

Mae Cymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21 yn nodi'r nod i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwella addysgu a dysgu Cymraeg i bob dysgwr, a rhoi'r rhain 'wrth wraidd' diwygio addysgol (Llywodraeth Cymru, 2017b). Mae'r Gweinidog Addysg yn datgan, 'Ein Cenhadaeth Genedlaethol yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol gwirioneddol a hyder y cyhoedd' (Llywodraeth Cymru, 2017a, tud.3).

Mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn elfen orfodol yn y cwricwlwm i bob dysgwr nes y bydd yn 16 mlwydd oed ac mae Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes (Hydref 2015) yn nodi ei bod yn flaenoriaeth 'sicrhau bod pob dysgwr yn gallu meithrin ei sgiliau iaith Gymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau'.

Mae'r manteision i ddisgyblion yn sgil cynyddu eu cymhwysedd yn y Gymraeg ac o ran bod yn ddwyieithog wedi hen ennill eu plwyf. Maent yn cynnwys:

- gwerth masnachol yn y farchnad swyddi ac ymestyn medrau iaith ar gyfer y gweithle

- ehangu eu gorwelion a chyfoethogi eu profiadau o fywyd yng Nghymru a thu hwnt
- manteision gwybyddol dwyieithrwydd[1]
- gwerthfawrogi amrywiaeth

Wrth werthuso deilliannau a darpariaeth yr iaith Gymraeg, mae'n hanfodol ein bod bob amser yn ystyried cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r hyn a wna'r ysgol er mwyn sicrhau parhad a dilyniant ym medrau ieithyddol ei disgyblion o'u mannau cychwyn unigol.

Yn fras, gellir dosbarthu ysgolion yn ôl eu cyfansoddiad ieithyddol[2] fel a ganlyn:

- ysgolion sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf
- ysgolion cyfrwng Saesneg
- ysgolion wedi'u ffrydio, sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg a Saesneg i raddau amrywiol

Mae Adran 84 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion a gyflwynwyd yn 2013, yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i wella darpariaeth a safonau o ran addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Rhaid i bob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg amlinellu sut bydd yr awdurdod lleol yn cefnogi darpariaeth barhaus addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd cylch nesaf y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael eu cyflwyno erbyn Ionawr 2022, a byddant yn weithredol o fis Medi 2022.

Mae gan bob ysgol a gynhelir, gan gynnwys ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, rwymedigaeth gyfreithiol i addysgu Cymraeg i bob disgybl o oed ysgol statudol, ac eithrio ychydig iawn o ddisgyblion y mae eu datganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun datblygu unigol (CDU) ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn eu datgymhwyso o ddysgu Cymraeg.

Nid oes gofyniad statudol ar ysgolion annibynnol i addysgu Cymraeg fel pwnc. Pan fydd yr ysgol yn gwneud penderfyniad cadarnhaol i beidio â darparu ar gyfer addysgu Cymraeg neu i beidio â datblygu dimensiwn Cymreig y cwricwlwm, dylai'r adroddiad yn syml ddweud: 'Nid yw'r ysgol yn addysgu Cymraeg' neu 'Nid yw'r ysgol yn mynd ati i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig'. Mewn ysgolion annibynnol sy'n addysgu Cymraeg neu'n cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg, dylai arolygwyr ddefnyddio'r cwestiynau a restrir yn yr adran nesaf, fel bo'n gymwys. Dylai arolygwyr archwilio polisi'r ysgol ar gyfer Cymraeg a gwerthuso pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithredu'r polisi hwnnw. Dylent hefyd farnu'r graddau y mae'r ysgol yn cyfrannu at ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020a) ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, yn amlinellu sut mae'r maes dysgu a phrofiad yn cefnogi

pedwar diben y cwricwlwm. Fel eu prif nod, mae'n nodi cefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a medrau mewn Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol, ac mewn llenyddiaeth yn ogystal (Llywodraeth Cymru, 2020a, tud.126). Amlygir pwysigrwydd cefnogi 'dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus a gwerthfawrogi pa mor ddefnyddiol ydyw er mwyn cyfathrebu mewn Cymru ddwyieithog' (Llywodraeth Cymru, 2020a, tud.30) hefyd. O ganlyniad, mae datblygu dysgwyr sy'n ymfalchïo yn y Gymraeg ac yn ei defnyddio â hyder cynyddol wrth wraidd y weledigaeth genedlaethol.

Yn ystod y cyfnod o ymgyfarwyddo â'r Cwricwlwm i Gymru, a'i fabwysiadu, ym mis Medi 2022, byddwn yn mabwysiadu ymagwedd bragmataidd at waith y darparwyr i gynllunio, dylunio a gwireddu eu cwricwlwm mewn modd priodol ac amserol. Bydd arolygwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw ganllawiau cyhoeddedig ar ddisgwyliadau cyffredin neu rai a rennir. Bydd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gynllunio a chyflawni er mwyn datblygu medrau gwrando a darllen, a siarad ac ysgrifennu disgyblion. Dylai arolygwyr ystyried effeithiau cadarnhaol neu negyddol unrhyw drefniadau sydd ar waith i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau iaith a llythrennedd trwy allu manteisio ar brofiadau dysgu cyfoethog yn gyffredinol mewn gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd.

Dylai arolygwyr roi ystyriaeth ofalus i effaith unrhyw feysydd pwysig i'w gwella mewn perthynas â'r cwestiynau dros y ddalen ar y farn ar gyfer y dangosydd ansawdd perthnasol. Wrth ystyried a yw maes i'w ddatblygu yn bwysig, dylai arolygwyr ystyried cyfran y disgyblion sy'n gysylltiedig â'r diffyg neu yr effeithir arnynt gan y diffyg.

---

[1] Mae ymchwil yng Nghanada wedi datgelu bod dwyieithrwydd yn gwella sylw a rheolaeth wybyddol ymhlith plant ac oedolion hŷn, ac yn 2007, tynnodd sylw at effaith dwyieithrwydd ar oedi symptomau dementia rhag cychwyn.

[2] Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Diffinio Ysgolion yn Ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg' (Dogfen wybodaeth Rhif: 023/2007, Hydref 2007) yn amlinellu disgrifiadau a chategorïau o ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir wrth addysgu a dysgu ac ym mywyd bob dydd yr ysgol.

# Gwerthuso’r Gymraeg

## 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, yn cynnwys y corff llywodraethol (wrth wella medrau Cymraeg disgyblion)

**Arweiniad cyffredinol**

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a strategol ar gyfer datblygu disgyblion dwyieithog ac amlieithog mewn amgylchedd dysgu Cymraeg wedi’i gyfoethogi. Dylai arolygwyr werthuso’r rhesymeg ar gyfer y cwricwlwm, o ran y ffordd y maent yn caffael iaith ddatblygiadol ar gyfer disgyblion, a manteision iddyn nhw wrth baratoi ar gyfer dysgu gydol oes a chwarae rhan lawn mewn cymdeithas ddwyieithog. Dylai arolygwyr werthuso pa mor llwyddiannus yw arweinwyr a rheolwyr o ran cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig o ran gwella medrau Cymraeg disgyblion, yn unol â chyflawni’r nod i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn cynllunio’n bwrpasol i ddarparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd.

**Cwestiynau**

- Pa mor effeithiol yw gweledigaeth yr ysgol? Pa mor dda mae arweinwyr yn lledaenu’r weledigaeth gyda’r holl bartneriaid? Beth yw’r effaith ar ddisgyblion o ran caffael y Gymraeg a’r cynnydd a wneir yn y medrau?
- I ba raddau y mae arweinwyr ysgolion yn cynllunio’n bwrpasol i ddatblygu medrau Cymraeg eu disgyblion ar draws meysydd y cwricwlwm?
- A oes gan ymarferwyr ar bob lefel ddarlun cywir o’r hyn y mae angen ei wneud i wella deilliannau a darpariaeth yn Gymraeg?

- A yw cynlluniau gwella yn nodi cynigion clir i fynd i’r afael â meysydd penodol y mae angen eu datblygu?
- A yw’r ysgol yn gweithio’n dda mewn partneriaeth â darparwyr eraill i ymestyn argaeledd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir i ddisgyblion?
- A oes cydweithio rhwng ysgolion cynradd a lleoliadau nas cynhelir, a rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd partner, i sicrhau cysondeb, parhad a dilyniant ym mhrofiadau dysgu a medrau disgyblion yn Gymraeg yn ystod y cyfnod pontio?

- I ba raddau y mae'r ysgol yn manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan ddarparwyr eraill, fel yr Urdd a'r Mentrau Iaith[1]?
- Lle y bo'n berthnasol, a oes gan yr ysgol ddigon o staff sy'n gallu addysgu'n effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad cynaledig mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg?
- A yw arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer ymarferwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth o fethodoleg trochi iaith?
- A yw pob un o'r athrawon sy'n addysgu Cymraeg yn gymwys i wneud hynny?
- Lle y bo'n berthnasol, a oes cymorth / datblygiad proffesiynol o ansawdd da ar gyfer athrawon Cymraeg anarbenigol a staff eraill yn yr ysgol, fel cymorth mewnol gan arbenigwyr iaith neu gyfranogi yn y Cynllun Sabothol[2]?
- A yw'r ysgol yn cymryd pob cam rhesymol o ran cost-effeithiolrwydd i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

---

[1] Mae'r Mentrau Iaith yn cefnogi ymdrechion i gynnal yr iaith ar lefel gymunedol. Mae'r Mentrau Iaith yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol a chenedlaethol a rhanddeiliaid ar brosiectau amrywiol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

[2] Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw'r 'cynllun sabothol' i gynyddu nifer yr athrawon a darlithwyr cymwys sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd y cwrs cyntaf yng ngwanwyn 2006.

# 3.1 Addysgu a phrofiadau dysgu: Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm ysgolion (datblygu medrau Cymraeg disgyblion)

**Arweiniad cyffredinol**

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae trefniadau'r cwricwlwm yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau gwrando a darllen, siarad ac ysgrifennu angenrheidiol yn Gymraeg o'u mannau cychwyn unigol i gefnogi eu gwaith ar draws meysydd y cwricwlwm. Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae ymarferwyr yn datblygu caffael iaith disgyblion trwy ddefnyddio methodoleg drochi yn gyson ar draws yr ysgol.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r ysgol wedi rhoi sylw i'r fframwaith llythrennedd cenedlaethol wrth gynllunio profiadau dysgu ar gyfer disgyblion er mwyn sicrhau dilyniant mewn medrau. Dylid ystyried ymdrechion yr ysgol i ddatblygu medrau

Cymraeg disgyblion yn eu hymdrechion i gynllunio gweithgareddau yn unol â gweithredu Cwricwlwm i Gymru. Dylai ehangder profiadau disgyblion ar draws y cwricwlwm ddarparu cyfleoedd cynyddol a phwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau Cymraeg. Dylai arolygwyr edrych ar y dystiolaeth yn llyfrau disgyblion, ac arddangosfeydd yn yr amgylchedd dysgu. Dylent ystyried i ba raddau y mae cynllunio yn helpu darparu cyfleoedd pwrpasol a datblygiadol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn weithredol mewn ffordd naturiol a chydlynus ar draws y cwricwlwm.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae darpariaeth ffurfiol ac anffurfiol yr ysgol yn datblygu medrau yn y Gymraeg a beth yw ansawdd y ddarpariaeth, er enghraifft mewn gwersi Cymraeg ffurfiol, fel cyfrwng dysgu ym meysydd eraill y cwricwlwm, ac mewn dull mwy cyfannol yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ychwanegol, dylai arolygwyr roi sylwadau ar weithgareddau allgyrsiol yr ysgol a ddarperir gan staff, fel mentrau a gweithgareddau Siarter Iaith/Cymraeg Campus a gefnogir gan ddarparwyr allanol, fel yr Urdd neu'r Mentrau Iaith. Dylai arolygwyr wneud sylw ar y trefniadau, a pha mor briodol yw'r amser a neilltuir i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni cynnydd cynaledig a safonau priodol yn y Gymraeg. Dylai disgyblion fod yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog ac yn amlieithog. Mae'n ofyniad statudol bod pob disgybl yn dysgu Cymraeg hyd at oed gadael yr ysgol.

**Cwestiynau**

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth arolygu ac adrodd ar agwedd 3.1: Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm ysgolion (datblygu medrau Cymraeg disgyblion):

**Cyffredinol / Strategol**

- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofyniad statudol i addysgu Cymraeg i bob disgybl hyd at oed gadael yr ysgol, ac eithrio disgyblion y mae eu datganiadau o AAA / CDU yn eu datgymhwyso?
- Ydy'r iaith Gymraeg yn chwarae rhan amlwg ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd?
- A yw'r ysgol yn meithrin chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg a mwynhad ohoni, er mwyn galluogi disgyblion i fod yn ymwybodol o fanteision defnyddio'r Gymraeg?
- A yw'r iaith i'w chlywed a'i gweld o gwmpas yr ysgol? Er enghraifft, a yw disgyblion a staff yn siarad Cymraeg â'i gilydd ac a ddefnyddir yr iaith ar arwyddion ac mewn arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol? Pa mor gydlynus a chyson yw hyn?
- A oes gan yr ysgol ethos sy'n hyrwyddo'r Gymraeg (treftadaeth a diwylliant Cymru) ac agweddau cadarnhaol tuag atynt? A yw ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion trwy ddefnyddio cyd-destun lleol a chenedlaethol Cymru?
- A oes parhad rhwng cyfnodau allweddol ac ar eu traws o ran profiadau disgyblion

yn y Gymraeg, a phan fo'n gymwys, graddau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg? Er enghraifft, o ddarparwyr nas cynhelir i'r cyfnod sylfaen, ac o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3?

- A oes cymorth da i ddisgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r ysgol, neu i ddisgyblion nad oes ganddynt unrhyw gymhwysedd blaenorol yn y Gymraeg, neu gymhwysedd cyfyngedig?
- Lle y bo'n berthnasol, a yw disgyblion yn gallu manteisio ar ystod lawn o ddewisiadau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg?
- Lle y bo'n berthnasol, a oes parhad o ran datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn y ddarpariaeth mewn unedau cyfeirio disgyblion?
- Lle y bo'n berthnasol, ar gyfer disgyblion sy'n mynychu canolfannau trochi yn y Gymraeg am nad ydynt yn medru llawer o Gymraeg, os o gwbl, a oes parhad yn y ddarpariaeth o ran datblygu medrau Cymraeg mewn ffrydiau cyfrwng Cymraeg a Chymraeg mewn ysgolion dwyieithog?

**Addysgeg**

- A yw arferion dysgu ac addysgu'r ysgol (addysgeg) yn sicrhau bod medrau Cymraeg y disgyblion yn datblygu / gwella'n gadarn ac yn gyflym? A yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol?
- Pa mor hyderus yw ymarferwyr yn eu methodoleg trochi yn y Gymraeg? A oes ymagwedd gydlynus a chyson ar draws yr ysgol?
- Pa mor dda y caiff dysgwyr eu cefnogi gan adnoddau addysgu a dysgu effeithiol yn Gymraeg?
- A yw gweithgareddau dysgu'r ysgol yn atgyfnerthu medrau iaith y disgyblion ac yn sicrhau'r rhyngddibyniaeth rhwng medrau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu, ac ar eu traws?
- A yw disgyblion yn cael cyfleoedd cynyddol i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd y tu allan i wersi Cymraeg?

**Cynllunio**

- A yw trefniadaeth y cwricwlwm a'r dyraniad amser yn galluogi disgyblion i wneud a chynnal cynnydd datblygiadol yn y Gymraeg?
- A yw'r ysgol yn cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu medrau iaith ei disgyblion? A yw'r cynllunio yn dangos bod ymarferwyr yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion o'u medrau Cymraeg? A yw athrawon yn ystyried mannau cychwyn unigol disgyblion a'u cyfle i elwa ar y continwwm iaith yn ddigon effeithiol?
- Lle y bo'n berthnasol, a yw disgyblion yn cael cyfleoedd a chymorth cyfoethog a pherthnasol i ddatblygu medrau llythrennedd deuol, fel trawsieithu? Pa mor bwrpasol yw'r cyfleoedd hyn o ran datblygu medrau Cymraeg disgyblion?

**Addysgu**

- A yw ymarferwyr yn ymyrryd ac yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu'r modd y maent yn caffael y Gymraeg yn effeithiol mewn gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd?
- A oes gan yr ysgol ymagwedd gyson at ddatblygu medrau gwrando a siarad disgyblion?
- Pa mor gywir a datblygedig yw medrau iaith ymarferwyr? A ydynt yn fodelau rôl effeithiol o ran iaith? A ydynt yn defnyddio'r lefel briodol o Gymraeg gyda disgyblion, ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd?
- A yw ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu, mewn gwersi ac mewn sefyllfaoedd eraill?
- A oes ymyrraeth ddigonol gan ymarferwyr i wella ansawdd a chywirdeb cymhwysedd llafar disgyblion yn Gymraeg? Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr ac arweinwyr yn monitro a gwerthuso effaith gynaledig ymyriadau ar fedrau disgyblion?
- A oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o hyder a chymhwysedd disgyblion wrth sgwrsio yn Gymraeg?
- A yw'r ysgol yn paratoi disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eu cymunedau?

**Asesu**

- I ba raddau y mae deunyddiau addysgu, dysgu ac asesu Cymraeg neu ddwyieithog ar gael, yn cynnwys ar gyfer disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY? Beth yw safon y deunyddiau hyn, a pha mor effeithiol yw ymarferwyr o ran defnyddio deilliannau gwahanol asesiadau i gynllunio gweithgareddau dilynol i sicrhau cynnydd?
- Pa mor effeithiol yw'r prosesau a'r systemau olrhain o ran datblygu medrau disgyblion? A yw'r wybodaeth yn bwydo i mewn i gynllunio gweithgareddau dilynol yn ddigon da?
- Lle y bo'n berthnasol, a yw pob disgybl sy'n cael ei asesu mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cael ei asesu hefyd mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnodau allweddol 3 a 4?
- Lle y bo'n berthnasol, a yw disgyblion yn gallu manteisio ar athrawon arbenigol a seicolegwyr addysg Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer anghenion penodol dwys fel therapyddion lleferydd a chlyw?

# 1.1 Safonau a chynnydd yn y Gymraeg

**Arweiniad cyffredinol**

Dylai arolygwyr adrodd yn glir ar safonau a chynnydd disgyblion o'u mannau cychwyn unigol mewn medrau gwrando a darllen, siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg ym mhob

cyfnod allweddol.

Dylai arolygwyr farnu safonau mewn medrau Cymraeg ar sail tystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft wrth arsylwi cynnydd disgyblion mewn gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau gyda disgyblion mewn gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd. Bydd arsylwi'n ofalus ar ddisgyblion mewn gwersi a siarad â disgyblion yn darparu tystiolaeth o'u medrau gwrando a siarad a'u gallu i feddwl. Yn dibynnu ar lefel oedran a hyfedredd disgyblion, bydd gwrando arnynt yn darllen gwahanol destunau sy'n briodol i lefel eu cymhwysedd a thrafod y cynnwys yn darparu gwybodaeth am eu dealltwriaeth a'u defnydd o eiriau a phatrymau cystrawen cyfarwydd ac anghyfarwydd yn Gymraeg. Bydd craffu ar waith mewn llyfrau ac arddangosfeydd yn yr amgylchedd dysgu yn darparu tystiolaeth o ba mor dda mae disgyblion yn gallu ysgrifennu'n glir a deall yr hyn y maent yn ei ddarllen.

Dylai arolygwyr ystyried safonau disgyblion mewn Cymraeg o gymharu ag ysgolion tebyg a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion o wahanol fannau cychwyn unigol. Lle y bo'n berthnasol, dylai arolygwyr ystyried cynnydd disgyblion o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Dylent ystyried cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg, llenyddiaeth Gymraeg neu Gymraeg ail iaith o'i gymharu â'u cynnydd blaenorol a chyrhaeddiad mewn ysgolion tebyg.

Dylai arolygwyr ystyried y cynnydd a wna disgyblion o ran datblygu eu medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm ac o gwmpas yr ysgol. Dylid ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu dysgu a medrau Cymraeg yn eu hymdrechion i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Dylent ystyried agweddau disgyblion tuag at ddysgu Cymraeg, a pha mor dda y maent yn gwybod am fanteision dysgu'r Gymraeg a dod yn ddwyieithog.

Yng nghyfnod allweddol 4, lle y bo'n berthnasol, dylai arolygwyr ystyried cyfran y disgyblion sy'n ennill cymhwyster cydnabyddedig cyfnod allweddol 4 mewn Cymraeg ail iaith. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, dylent ystyried cyfran y disgyblion sy'n cwblhau eu gwaith cwrs a'u hasesiad terfynol mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn yr holl gyrsiau a ddilynant ar draws y cwricwlwm.

**Cwestiynau**

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth arolygu ac adrodd ar 1.1 Safonau a chynnydd mewn dysgu a medrau [gwrando a darllen, siarad ac ysgrifennu] (yn Gymraeg):

- A yw disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi Cymraeg / trwy gyfrwng y

Gymraeg ar draws y cwricwlwm?

- A yw disgyblion yn datblygu eu gafael ar y medrau Cymraeg mewn modd integredig? Er enghraifft:
    - Pa mor dda maen nhw'n datblygu medrau gwrando a siarad er mwyn cyfathrebu?
    - Pa mor dda maen nhw'n datblygu medrau darllen er mwyn deall ac ymateb i wahanol ffurfiau ysgrifenedig?
    - Pa mor dda maen nhw'n datblygu medrau ysgrifennu er mwyn ysgrifennu'n effeithiol, yn gywir ac yn estynedig, gyda genre / ffrâm iaith i roi cymorth, a hebddi?
    - Pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd ar hyd y continwwm iaith o'u mannau cychwyn unigol?
- Lle y bo'n berthnasol, a yw disgyblion yn hyderus ac yn gymwys yn defnyddio'r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd y tu allan i'w gwersi Cymraeg? A ydynt yn siarad Cymraeg yn ddigymell mewn gweithgareddau llai ffurfiol?
- Lle y bo'n berthnasol, a yw disgyblion yn gallu defnyddio'r geiriau, y patrymau cystrawen a'r cywair ieithyddol priodol a pherthnasol wrth drafod neu gyfathrebu gyda gwahanol gynulleidfaoedd?
- Lle y bo'n briodol, a oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o derminoleg bynciol yn Gymraeg mewn pynciau ar draws gwahanol feysydd y cwricwlwm?
- Lle y bo'n berthnasol, a yw disgyblion yn datblygu cymhwysedd cynyddol wrth ddefnyddio medrau llythrennedd deuol, fel trawsieithu? [1]
- A yw disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol heb fawr o gymhwysedd neu ddim cymhwysedd blaenorol yn y Gymraeg yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn unigol?
- A yw disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg o leoliadau nas cynhelir i'r cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 mewn ysgolion cynradd, ac wedyn yng nghyfnod allweddol 3 a 4 mewn ysgolion uwchradd, mewn ffordd sy'n sicrhau dilyniant wrth ddatblygu eu medrau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu?
- A yw cyrhaeddiad mewn Cymraeg yn ôl asesiadau athrawon ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, cyfnodau allweddol 2 a 3, ac mewn arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth (Cymraeg, Llenyddiaeth Gymraeg neu Gymraeg ail iaith), yn cymharu'n ffafriol â chyrhaeddiad mewn ysgolion tebyg?
- Lle y bo'n berthnasol, a yw pob disgybl yn ennill cymhwyster cydnabyddedig mewn Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, ac eithrio'r disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso gan eu datganiadau o AAA / CDU?
- Lle y bo'n berthnasol, faint o ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith (mewn ysgolion cyfrwng Saesneg neu mewn ffrydiau Saesneg mewn ysgolion dwyieithog) sy'n ennill cymhwyster cydnabyddedig yn y Cymraeg, gan gynnwys TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs llawn) ar ddiwedd cyfnod allweddol 4?
- Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, faint o ddisgyblion sy'n cwblhau eu gwaith cwrs a'u hasesiadau terfynol yn Gymraeg (yn yr holl gyrsiau a ddilynant ar draws y cwricwlwm) yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth?
- A yw disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol a mwynhad wrth ddysgu Cymraeg?
- A yw disgyblion yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a dod yn gynyddol

ddwyieithog?
- Pa gyfran o ddisgyblion sy’n cymryd rhan mewn digwyddiadau neu weithgareddau allgyrsiol neu gymunedol lle gallant ddefnyddio’u medrau Cymraeg?

---

[1] Yn y sector cyfrwng Cymraeg yn benodol, mae disgyblion yn aml yn casglu gwybodaeth o ffynonellau mewn un iaith a’i defnyddio yn yr iaith arall, naill ai ar lafar neu’n ysgrifenedig. Mae’r ‘medrau llythrennedd deuol’ hyn yn bwysig am eu bod yn galluogi disgyblion i fanteisio ar ystod ehangach o ddeunyddiau dysgu. Maent hefyd yn atgyfnerthu’u medrau cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg.